



Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Sirol Cwmdâr

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Sirol Cwmdâr yn ysgol hapus a chynhwysol lle mae staff a disgyblion yn trin ei gilydd â gofal a pharch. Ar draws yr ysgol, mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn eithriadol o dda, maent yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu ac yn croesawu ymwelwyr yn hapus. Ceir diwylliant cryf o ddiogelu yn yr ysgol, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn mwynhau eu profiadau dysgu ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth cryf ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae cynorthwyr cymorth dysgu yn gweithio'n effeithiol gyda disgyblion mewn grwpiau bach, gan gynnig cymorth unigol gwerthfawr ar gyfer disgyblion bregus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ar draws yr ysgol ac yn datblygu eu medrau darllen, ysgrifennu a rhifedd yn dda. Mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar fedrau siarad cryf. Maent yn siarad yn hyderus am eu gwaith a'u bywyd ysgol yn gyffredinol ac yn cyfrannu'n effeithiol yn ystod gwersi. Mae'r ysgol yn dechrau datblygu cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu yn ystod gwersi, ond mae cyfleoedd i lawer o ddisgyblion wella'u gwaith eu hunain a nodi eu camau nesaf mewn dysgu dros gyfnod, yn gyfyngedig.

Mae athrawon a chynorthwyr cymorth dysgu yn adnabod disgyblion yn dda. Maent yn ffurfio perthnasoedd cynnes ac anogol sy'n helpu disgyblion i deimlo wedi ymlacio a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae athrawon yn gosod disgwyliadau clir mewn gwersi, gan gynllunio ystod o brofiadau dysgu ysgogol sy'n cymell ac yn ysbrydoli bron pob un o'r disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob amser yn cael digon o gyfleoedd i wneud dewisiadau am eu dysgu a datblygu'n llawn fel dysgwyr annibynnol a chreadigol.

Mae arweinwyr yn darparu cyfarwyddyd clir ac yn modelu ymddygiadau proffesiynol yn effeithiol. Maent yn meithrin cydweithio yn llwyddiannus â staff cymorth i weithio'n dda fel tîm. Cânt gyfleoedd rheolaidd ar gyfer datblygiad proffesiynol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain a'u disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o fewn amgylchedd tawel, pwrpasol a hapus.

Mae llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol ac wedi ymrwymo i greu amgylchedd cynhwysol sy'n meithrin dysgu a lles disgyblion.

Argymhellion

- A1 Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion gyfeirio'u dysgu eu hunain, gan ddatblygu eu hannibyniaeth a'u creadigrwydd
- A2 Darparu cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrion ar adborth, ac ymateb iddo, a nodi'r camau nesaf yn eu dysgu

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.



Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|--|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Sirol Cwmdâr |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Dim |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 261 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 195 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 37 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.7%) | 17.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 13.2%) | 4.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 1.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 16/01/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 14/06/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 03/06/2024 |

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/08/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.